



# Arolygiaeth Prawf EM

## **Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi**

### **Cynllun Iaith Gymraeg - Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer 2021/2022**

#### **Rhagarweiniad**

- 1.** Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan yr Arolygydd gyda chyfrifoldeb am ein Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 01/01/21 i 31/03/22.
- 2.** Mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn hyrwyddo rhagoriaeth ym maes prawf a gwasanaethau troseddu ieuencid ledled Cymru a Lloegr. Fe wnawn hyn drwy arolygiadau annibynnol, argymhellion, ymchwil, a chanllawiau ymarfer effeithiol. Rydym yn derbyn cyllideb ddirprwyedig oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sydd yn £6.56m ar gyfer 2021/22.
- 3.** Mae'r sefydliad a arweinir gan Brif Arolygydd Prawf EM wedi ymrwymo i gyflawni ein cyfrifoldebau o dan Gynllun Iaith Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, wrth gynnal ein harolygiadau yng Nghymru, y byddwn yn trin yr ieithoedd Cymraeg a Saesneg ar sylfaen o gydraddoldeb, fel yr amlinellir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg sydd wedi'i gymeradwyo.
- 4.** Mae'r Arolygiaeth yn cyflogi un aelod o staff sy'n siarad Cymraeg, sef y Pennaeth arolygiadau thematig a chyd-arolygiadau.

#### **Recriwtio**

- 5.** Rydym yn parhau i gynyddu'r broses o recriwtio siaradwyr y Gymraeg. Mae ein hysbysebion swyddi'n ei wneud yn amlwg ein bod yn rhoi croeso cynnes i geisiadau gan ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg, ac rydym yn cynnig y cyfle i ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg drafod y swydd yn y Gymraeg. Rydym hefyd yn cynnig darparu'r hysbyseb a'r disgrifiad swydd yn y Gymraeg ac yn parhau i wneud defnydd rheolaidd o'n perthnasoedd sefydledig gyda rhanddeiliaid yn y sector cyfiawnder yng Nghymru, er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n swyddi gwag.
- 6.** Ochr yn ochr â'n ymdrechion i recriwtio siaradwyr Cymraeg, rydym yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf - rhanbarth Cymru a Thimau Troseddu Ieuencid yng Nghymru i recriwtio a hyfforddi 'aseswyr lleol' sy'n siarad Cymraeg. O ganlyniad, rydym wedi hyfforddi asesydd lleol gwasanaeth prawf sy'n siarad Cymraeg ac rydym wedi'i ddefnyddio ar gyfer arolygiad thematig yng Nghymru.

#### **Cynllunio a drparu gwasanaeth**

- 7.** Rydym yn cynllunio a gweithredu arolygiadau yng Nghymru o waith troseddu oedolion ac ieuencid, weithiau ar y cyd ag arolygiaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cwnstablïaeth a Thân ac Achub EM (HMICFRS). Wrth wneud hynny, rydym yn hyrwyddo ein Cynllun Iaith Gymraeg ac yn yr un modd yn ymwybodol o gynlluniau arolygiaethau eraill.

- 8.** Unwaith y byddwn wedi recriwtio arolygwyr neu aseswyr lleol sy'n siarad Cymraeg byddwn yn ceisio darparu o leiaf un arolygydd sy'n siarad Cymraeg ar ein rhaglenni craidd ar gyfer ieuenctid ac oedolion yng Nghymru. Rydym wedi cysylltu â'r Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, y Gwasanaeth Prawf - rhanbarth Cymru a Rheolwyr Tîm Troseddu Ieuenctid yng Nghymru ac wedi gofyn iddynt ein hysbysu ymlaen llaw a fyddai'n well gan unrhyw un o'u defnyddwyr gwasanaeth, staff neu reolwyr strategol gael eu cyfweld yn y Gymraeg.
- 9.** Mae ein harolygiadau thematig yn edrych ar feysydd penodol gwaith troseddu ieuenctid ac oedolion ledled Cymru a Lloegr. Pan yw hyn yn cynnwys arolygiad o ardal yng Nghymru, rydym hefyd yn gofyn a fyddai'n well gan unrhyw un gael ei gyfweld yn y Gymraeg er mwyn y gellir darparu arolygydd sy'n siarad Cymraeg.
- 10.** Mae ein harolygiad craidd o waith troseddu ieuenctid ac oedolion yng Nghymru yn cynnwys canolbwyntio ar sut mae'r sefydliad sy'n cael ei archwilio wedi adnabod ac ymateb i'r dewis i gael mynediad at wasanaethau cyfrwng Gymraeg. Mae'r trafodaethau gyda staff hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd cydnabod hawliau defnyddiwr gwasanaeth i gael mynediad at wasanaethau trwy'r iaith Gymraeg.
- 11.** Gellir cyflwyno gwybodaeth y gofynnir amdani gan Brawf EM cyn arolygiad naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd, gwnaed pob cyflwyniad o'r fath yn y Saesneg.

### **Arolygiadau a wneir yng Nghymru**

- 12.** Fe wnaethom fabwysiadu dull cyfunol o weithgarwch wyneb yn wyneb ac o bell yn 2021/2022 yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi parhau i arolygu gwasanaethau prawf o bell gan defnyddio technoleg fideo a thelegynadledda, a gwasanaethau troseddu ieuenctid ar y safle ac o bell.
- 13.** Rydym wedi cwblhau pedwar arolygiad o wasanaethau troseddu ieuenctid yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd, sef Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Abertawe, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar (CI a GYG) Castell-nedd Port Talbot, GCI Pen-y-bont ar Ogwr a GCI Caerdydd. Darparwyd y llythyr cyhoeddi, y daflen wybodaeth i blant a'r ffurflen ganiatâd, a'r daflen wybodaeth i staff yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer yr arolygiadau GCI yn Abertawe, Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd.
- 14.** Yn anffodus, ni ddigwyddodd hyn ar gyfer yr arolygiad CI a GYG yng Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn ymddiheurio am yr esgeulustod hwn, ac rydym wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto, gan gynnwys cyfarfod wedi'i drefnu gydag arweinydd yr Iaith Gymraeg a'r Pennaeth Arolygiad perthnasol i'w wneud yn glir beth a ddisgwyllir.
- 15.** Rydym wedi cynnal dau arolygiad o Unedau Cyflenwi Prawf (PDUs) yng Nghymru, sef Abertawe, PDU Castell-nedd Port Talbot a PDU Gwent. Darparwyd taflenni gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr prawf a'r arolwg o ymarferwyr yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 16.** Yn ein hadolygiad rhanbarthol o'r gwasanaeth prawf - rhanbarth Cymru, darparwyd y daflen wybodaeth ar gyfer staff rhanbarthol a'r arolwg o staff yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fe wnaeth pedwar aelod o staff gwblhau'r arolwg yn y Gymraeg.
- 17.** Rydym wedi cwblhau saith arolygiad thematig sydd wedi cynnwys ardaloedd yng Nghymru, sef 'Triniaeth cyffuriau wedi'i seilio yn y gymuned', 'gwaith i baratoi ar gyfer uno gwasanaethau prawf', 'y daith cyfiawnder troseddol ar gyfer unigolion ag anghenion iechyd meddwl', 'y defnydd o fonitro electronig', a 'merched yn y ddalfa', 'addysg, hyfforddiant a chyflogaeth ieuenctid (ETE) a 'threfniadau amlasiantaethol i ddiogelu'r cyhoedd (MAPPA)'. Hefyd fe wnaethom gwblhau Cyd-arolygiad o Drefniadau i Ddiogelu Plant (JICPA): Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot,

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Gwasanaeth Prawf - rhanbarth Cymru a Heddlu De Cymru.

18. Cyfanswm nifer y cyfweiliadau arolygiadau a gynhaliwyd yn y Gymraeg yn 2021/2022 yw saith, sy'n golygu gostyngiad ar 2020, pan wnaethom gynnal pedwar ar ddeg o gyfweiliadau yn yr iaith Gymraeg.

### **Delwedd gyhoeddus y sefydliad**

19. Rydyn yn defnyddio logo Cymraeg ar gyfer pob adroddiad a chyfathrebiad yn y Gymraeg.
20. Mae ein bathodynnau enwau mewn fformat dwyieithog fel sy'n wir am gerdyn busnes ein huwch reolwr sy'n siarad Cymraeg a'r arolygydd sydd â prif gyfrifoldeb am ein Cynllun Iaith Gymraeg. Oherwydd hynny, nodir arolgwyr sy'n siarad Cymraeg yn glir ar eu bathodynnau enwau.
21. Rydym wedi diweddarau ein gwefan i roi mwy o amlygrwydd i'r dudalen Gymraeg benodedig, sy'n cynnwys gwybodaeth am yr arolygiaeth, ein hadroddiadau, ymgynoriadau, dogfennau corfforaethol, a chyfleoedd gyrfa yn y Gymraeg.
22. Cynhoeddir adroddiadau ar ein harolygiadau yng Nghymru yn gyfochrog yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi cyhoeddi pedwar adroddiad arolygiad thematig ar gyfer Cymru a Lloegr, adroddiadau ar ddau wasanaeth troseddu ieuencid yng Nghymru, un adolygiad prawf rhanbarthol, dau Uned Cyflenwi Prawf Lleol a chyd-arolygiad o drefniadau diogelu plant yng Nghastell-nedd Port Talbot, wedi'i arwain gan AGC.
23. Roedd adroddiadau iaith Gymraeg ar gael ar yr un pryd â'n hadroddiadau iaith Saesneg ar gyfer yr arolygiadau hyn. Hefyd hyrwyddir adroddiadau cyhoeddedig gyda theitl dwyieithog ar Twitter.
24. Yn ein harolygiad o'r gwasanaeth troseddu ieuencid ym Mhowys, canfuom nad yw unrhyw ddata'n cael eu cofnodi na'u dadansoddi gan yr YJS ar gyfer dewis gwasanaeth iaith Gymraeg. Cawsom ein sicrhau y gellid darparu gwasanaethau yn y Gymraeg, ond heb unrhyw drywydd archwilio ar gyfer hyn ni allem fod yn sicr bod hyn yn cael ei ddarparu'n gyson.
25. Yn ein cyd-arolygiad peilot o drefniadau diogelu plant, fe wnaethom nodi bod cynnig gweithredol ar gael i'r rhai sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg ac ar draws gwasanaethau addysg roedd ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaethau cymorth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn rhedeg clybiau ar gyfer disgyblion sy'n siarad Cymraeg.
26. Fe wnaethom ganfod bod cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth PDU Abertawe, Castell-nedd Port Talbot yn gynhwysfawr a'i fod yn cwmpasu amcanion ynghylch cefnogi datblygu'r iaith Gymraeg.
27. Yn ein hadolygiad rhanbarthol Gwasanaeth Prawf - Cymru, fe wnaethom nodi Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS) yng Nghymru fel cryfder allweddol. Hyrwyddir y cynllun yn weithredol i staff, gan gynnwys cyfleoedd i staff wella eu sgiliau iaith Gymraeg. Fe wnaethom nodi hyder cynyddol ymhlith staff i gyfathrebu yn y Gymraeg.

### **Cyfathrebu ehangach**

28. Mae Prawf AEM wedi parhau i ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu cymeradwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rydym wedi cyflenwi rhestr o dermau a ddefnyddir yn gyffredin i'n darparwr cyfieithu i gynorthwyo cysondeb a byddwn yn dal i fonitro ansawdd y gwasanaeth hwn.

29. Atgyfeirir ceisiadau am gyfweiliadau iaith Gymraeg yn y cyfryngau i'n huwch reolwr sy'n siarad Cymraeg. Ni fu unrhyw geisiadau o'r fath, yn ystod y cyfnod adrodd.
30. Nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau na gohebiaeth i'n swyddfeydd ym Manceinion neu Lundain trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd ac nid ydym wedi derbyn unrhyw gŵynion ynghylch ein Cynllun Iaith Gymraeg.
31. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn rydym wedi dal i gysylltu ag arolygiaethau partner, gan gynnwys cydgysylltu i hyrwyddo datblygu trefniadau arolygiadau thematig ar y cyd yng Nghymru. Hefyd rydym wedi meithrin cysylltiadau gyda darparwyr y sector gwirfoddol yng Nghymru trwy ein cynrychiolaeth ar 'Fforwm Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan'.
32. Mae ein dull ymgysylltu rhagweithiol gyda rhanddeiliaid wedi cynnwys cydgysylltu parhaus gydag arweinwyr cyfiawnder troseddol yng Nghymru, a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau trwy ein hadolygiad rhanbarthol Gwasanaeth Prawf - Cymru. Rydym hefyd yn cael ein cynrychioli ar fforwm Rheolwyr Tîm Troseddau Ieuentid (YOT) Cymru, lle rydym yn hyrwyddo cyfleoedd i staff YOT sy'n siarad Cymraeg gael eu hyfforddi fel aseswyr lleol i gefnogi ein rhaglen graidd ac arolygiadau ieuentid thematig yng Nghymru.
33. Rydym yn parhau i nodi cyfleoedd i gynyddu ein dealltwriaeth o drefniadau datganoledig ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, gan eu bod yn gymwys i'n rôl ynghylch arolygu gwasanaethau prawf a throseddau ieuentid.

#### **Hyfforddiant a datblygiad staff**

34. Darparwyd hyfforddiant penodol i staff arolygu ynghylch hanes yr iaith Gymraeg, ein Cynllun Iaith Gymraeg ac arolygu yng Nghymru. Mae'r holl staff newydd yn dal i dderbyn, fel rhan o'u cyfnod cynefino, drosolwg Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sy'n cynnwys ein cyfrifoldebau ac ymrwymïadau ynghylch arolygu yng Nghymru.

#### **Effaith Covid-19**

35. Nid yw Covid-19 wedi cael unrhyw effaith ar ein hymrwymiad i ddarparu o leiaf un siaradwr Cymraeg, lle gofynnir am un, ar ein rhaglen arolygiadau craidd a thematig yng Nghymru.

#### **Trefniadau'r dyfodol**

36. Bydd Tony Kirk, Arolygydd Prawf AEM, yn parhau i gael prif gyfrifoldeb am ein Cynllun Iaith Gymraeg, ar ran Prif Arolygydd Prawf EM.



#### **Tony Kirk**

Arolygydd Prawf AEM

Ar ran

#### **Justin Russell**

Prif Arolygydd Prawf EM